**Jeremy Miles AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd CF99 1SN

5 Hydref 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr ar ôl sesiwn y Pwyllgor ar 21 Medi.

Gallaf gadarnhau bod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil Pysgodfeydd y DU wedi'i haildrefnu ar gyfer 6 Hydref. Mae'n anffodus nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gwblhau eto, ac nid dyma'r ffordd y byddem, yn ddelfrydol, wedi dewis gweithredu. Fodd bynnag, o ystyried natur eang y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mae'n dal i gael ei ddatblygu, ac o gofio’r amserlen ar gyfer y Bil hwn, roedd yn amhosibl ei rannu cyn penderfyniad cydsyniad y Senedd.

O ran y gorchymyn adran 109, nid yw Llywodraeth y DU wedi rhoi esboniad imi am yr oedi. Fodd bynnag, mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cadarnhau ei fod yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno'r Gorchymyn. Mae’n swyddogion yn gweithio i gytuno ar amserlen newydd ac wrthi’n cwblhau'r gwaith drafftio.

Gan droi at fater Covid-19, mae faint o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ef wedi cael effaith fawr ar amseriad is-ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig ag ymadael â’r UE − yn OSau gan Lywodraeth y DU ac yn OSau sydd eu hangen yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â materion sy’n gysylltiedig ag ymadael yr UE. Yn achos Llywodraeth Cymru, rydym wedi gwneud nifer mawr iawn o ddarnau o is-ddeddfwriaeth sy’n ymdrin â’r coronafeirws a Covid-19, gyda thros 110 wedi'u gwneud hyd yma.

Bu’n rhaid defnyddio llawer iawn o adnoddau Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith hwn ac mae hynny, yn anochel, wedi arwain at sefyllfa lle mae mwy nag y byddem yn dymuno o is-ddeddfwriaeth sy’n gysylltiedig ag ymadael â’r UE wedi cael ei gwneud yn hanner olaf 2020.

Byddai'r risgiau o beidio â chael yr holl ddeddfwriaeth angenrheidiol yn ei lle ar ddiwedd y cyfnod pontio yn golygu na fyddai gennym lyfr statud gweithredol ac na fyddai modd cyflawni'r Cytundeb Ymadael, cytundebau cysylltiedig a chyfundrefnau domestig ar ôl y cyfnod pontio. Byddai hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw gytuniad gyda'r UE a Chytundebau Masnach Rydd gyda thrydydd gwledydd.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferion blaenoriaethu, ac yn dal i'w cynnal, er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo modd, y gellir cyflawni'r holl ddeddfwriaeth angenrheidiol erbyn diwedd y flwyddyn.

Gallai ton arall o Covid-19 greu her aruthrol arall o ran cyflawni'r rhaglen ddeddfwriaethol ar gyfer diwedd y cyfnod pontio. A ninnau'n  Llywodraeth gyfrifol, dyna un rheswm pam y gwnaethom ofyn i Lywodraeth y DU wneud cais am estyniad i'r cyfnod pontio.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, gan mai hi yw Cadeirydd y Pwyllgor Busnes.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**